# Mynediad at Wleidyddiaeth:
Siarter i Bleidiau Gwleidyddol

Disability Wales
Anabledd Cymru

A2P
Mynediad at Wleidyddiaeth
Access to Politics
Rhwydwaith Llawr Gwlad
Grassroots Network

Mynediad at Wleidyddiaeth
Access to Politics
Rhwydwaith Llawr Gwlad
Grassroots Network


**Anabledd Cymru**
Sbarc / Spark
Maindy Road
Caerdydd
CF24 4HQ



Rhif Elusen: 517391
Rhif y Cwmni: 1998621

Derbyniodd Anabledd Cymru
arian gan Lywodraeth Cymru



029 2088 7325
029 2088 8702
info@disabilitywales.org
www.disabilitywales.org
twitter.com/DisabilityWales
facebook.com/DisabilityWales

# Cyflwyniad

**Cafodd y Siarter hon ei chynhyrchu ar y cyd ag aelodau o'r Rhwydwaith Mynediad at Wleidyddiaeth ar Lawr Gwlad, wedi'i llywio gan y Siarter Mynediad at Wleidyddiaeth a grëwyd gan Inclusion Scotland[1] ac amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae Anabledd Cymru yn ddiolchgar i Inclusion Scotland am roi caniatâd iddynt ddefnyddio'r gwaith arloesol hwn. Ymysg yr adnoddau allweddol eraill a helpodd i lunio'r Siarter mae Pecyn Cymorth Diverse 5050[2] a Chanllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol Cofrestredig[3] – dogfennau a fydd yn ategiadau gwerthfawr i'r Siarter. Roedd y gwaith hwn yn bosibl diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru.**

Mae prosiect Llawr Gwlad Mynediad at Wleidyddiaeth yn bwriadu hyrwyddo mwy o gyfranogiad gwleidyddol ymysg pobl anabl, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Yn ogystal â hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant pobl anabl mewn cynrychiolaeth wleidyddol ar bob lefel o lywodraeth.

Mae'r prosiect wedi ffurfio rhwydwaith llawr gwlad i bobl anabl sy'n cymryd rhan a/neu sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth; ac wedi cyd-gynhyrchu Siarter Mynediad at Wleidyddiaeth gydag aelodau. Mae'n cyflwyno camau ymarferol i bleidiau gwleidyddol eu dilyn, gan sicrhau cynnwys pobl anabl yn fwy yn strwythurau pleidiau.

Mae pobl anabl yn un o bob pump o boblogaeth Cymru, serch hynny, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu ymhlith aelodau etholedig ledled Cymru. Mae absenoldeb pobl anabl mewn rolau penderfynu'n golygu nad yw polisïau a gwasanaethau'n cael eu goleuo gan brofiadau byw.

Mae Anabledd Cymru'n galw ar bob plaid wleidyddol i fabwysiadu a dechrau defnyddio Siarter Mynediad at Wleidyddiaeth fel rhan o'u hymrwymiad at wneud Cymru'n fwy cydradd, cynhwysol a chynrychioliadol o'r boblogaeth.

---

1 https://inclusionscotland.org/wp-content/uploads/2021/06/Access-to-Politics-Charter-with-Guidance-Notes-Final-1.pdf

2 https://wenwales.org.uk/cy/ymgyrchu/5050amrywiol/pecyncynrychiolaethamrywiolachyfartal/

# Siarter
# Mynediad at Wleidyddiaeth

1. Byddwn yn ysgrifennu Datganiad Hygyrchedd a Chynhwysiant ac yn ei gyhoeddi.
2. Byddwn yn cefnogi Grŵp Aelodau Anabl yn ein plaid ac yn darparu'r adnoddau ar ei gyfer.
3. Byddwn yn ymgymryd â hyfforddiant mandadol Cydraddoldeb i Bobl Anabl ac yn ei ddarparu ar gyfer pob swyddog etholedig, pob aelod o'r blaid a phob aelod o staff.
4. Byddwn yn ymrwymo i ddefnyddio iaith a therminoleg sy'n cyd-fynd â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.
5. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o weithio i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r blaid.

6. Byddwn yn cyhoeddi Data Amrywiaeth Ymgeiswyr yn wirfoddol yn unol â Chanllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru, yn enwedig rhan 2[4] a'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

7. Byddwn yn cefnogi ac yn annog Rhannu Swyddi ar gyfer staff mewnol ac aelodau etholedig.

8. Byddwn yn mynd ati i gefnogi ac annog cynrychiolaeth fwy o bobl anabl ym maes gwleidyddiaeth, gan gynnwys fel cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr, deiliaid swyddi ac aelodau o bleidiau.

9. Byddwn yn mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ein polisïau a'n harfer.

**Drwy lofnodi'r Siarter hon**, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i greu amgylchedd gwleidyddol teg yng Nghymru lle mae pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol yn cael eu parchu, eu cefnogi a'u cynnwys yn llawn.



[3] Canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig | LLYW.CYMRU

[4] https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-amrywiaeth-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig-html

# Datganiad Hygyrchedd a Chynhwysiant **Ein Hymrwymiad**

# 1

Rydym yn ymrwymo i gefnogi cyfranogiad llawn, cyfartal a theg pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol ym mhob agwedd ar ein gweithgareddau gwleidyddol. Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi rhwystrau a'u dileu, i fodloni gofynion mynediad a chymorth, ac i sicrhau bod ymgysylltiad pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol â gwleidyddiaeth wedi'i sefydlu yn niwylliant ein plaid.

Byddwn yn llunio'r datganiad hwn ac yn ei ddiweddaru'n rheolaidd, i adlewyrchu cynnydd parhaus ac ailddatgan ein hymrwymiad i hygyrchedd a chynhwysiant.



## Polisïau Hygyrchedd a Chynhwysiant

Byddwn yn sefydlu polisïau hygyrchedd a chynhwysiant clir sy'n cynnwys y canlynol, ac yn eu gweithredu:

- **Cyfarfodydd a Digwyddiadau:** Bydd pob lleoliad yn hygyrch, ar drafnidiaeth gyhoeddus hefyd, a bydd seddi, arwyddion, a thoiledau hygyrch addas ar gael.
- **Hygyrchedd Digidol:** Bydd ein gwefannau, ein cyfryngau cymdeithasol, a chyfathrebu digidol yn bodloni safonau hygyrchedd cydnabyddedig.
- **Deunyddiau Cyfathrebu:** Bydd holl ddeunyddiau'r blaid yn cael eu creu gan ddilyn egwyddorion dylunio cynhwysol, ac ar gael mewn fformatau hygyrch.
- **Hyfforddiant:** Bydd aelodau o staff, aelodau a swyddogion etholedig yn cael hyfforddiant am gydraddoldeb anabledd, ymwybyddiaeth o Iaith Arwyddion Prydain, y model cymdeithasol, ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol.

Rydym yn cydnabod bod hygyrchedd yn fwy na mynediad corfforol a bod yn rhaid iddo gynnwys cynhwysiant o ran diwylliant, cyfathrebu a gweithdrefnau hefyd.

## Camau Gweithredu ac Amserlenni Penodol

Byddwn yn cymryd y camau penodol canlynol i gael gwared ar rwystrau:

- **Enwebu Hyrwyddwyr Pobl Anabl** ym mhob corff rhanbarthol a chenedlaethol.
- **Archwilio gweithdrefnau'r blaid** i adnabod rhwystrau sy'n atal pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol rhag cymryd rhan, a chyhoeddi'r canfyddiadau.
- **Datblygu cynllun gweithredu, a'i weithredu,** i gael gwared ar rwystrau a nodwyd, ac adolygu'r cynnydd yn flynyddol.
- **Sefydlu cynadleddau blynyddol y blaid** ar gyfer grwpiau gwleidyddol anabl, i rannu arfer gorau a llunio polisïau.

- **Adolygu a diweddaru** dogfennau a fideos hygyrch yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gywir, yn glir, ac yn bodloni anghenion darllenwyr.
- **Cyhoeddi'r datganiad hwn** mewn fformatau hygyrch a sicrhau bod pob diweddariad yn dilyn yr un dull cynhwysol.

## Gofyn am Fynediad a Chymorth

Byddwn yn sicrhau proses glir a chefnogol ar gyfer gofyn am fynediad:

- Gall aelodau a chyfranogwyr Byddar / anabl / niwrowahanol gyflwyno ceisiadau am fynediad trwy gysylltu â'n Swyddog Hygyrchedd
- Bydd tîm ymroddgar yn goruchwylio gweithrediad ceisiadau am fynediad ac yn sicrhau atebolrwydd.
- Bydd enwau a manylion cyswllt cysylltiadau hygyrchedd dynodedig yn cael eu cyhoeddi a'u diweddaru'n rheolaidd.



## Fformatau Hygyrch

Bydd y datganiad hwn a phob diweddariad yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi mewn / yn:

- **Print Bras**
- **Cyferbyniad Isel**
- **Fideo yn Iaith Arwyddion Prydain gyda phenawdau**
- **Braille**
- **Bydd disgrifiadau mewn geiriau i gyd-fynd â lluniau ar-lein**
- **Sain**
- **Dogfen Hawdd ei Darllen**

- **Fersiynau dwyieithog** yn Gymraeg a Saesneg ac mewn ieithoedd eraill sy'n angenrheidiol

Bydd fformatau hygyrch ar gael ar gais ac yn cael eu hyrwyddo trwy ein gwefan a'n sianeli cyfathrebu.

## Ymrwymiadau Ychwanegol

- **Bydd Hyrwyddwyr Pobl Anabl** yn eirioli dros arferion cynhwysol ac yn monitro cynnydd o fewn y blaid.
- **Cyd-gynhyrchu:** Bydd aelodau Byddar / anabl / niwrowahanol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd polisi a gweithgorau er mwyn cyd-gynhyrchu penderfyniadau.
- **Newid Diwylliannol:** Byddwn yn cyhoeddi map trywydd sy'n amlinellu sut y byddwn yn herio gwahaniaethu, yn mabwysiadu tegwch a chydraddoldeb, ac yn meithrin amgylchedd sy'n fwy cynhwysol o fewn y blaid.

## Atebolrwydd ac Adolygu

- Bydd y datganiad hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol mewn ymgynghoriad ag aelodau Byddar / anabl / niwrowahanol.
- Adroddir am gynnydd yn gyhoeddus er mwyn sicrhau tryloywder.
- Bydd mecanweithiau adborth yn cael eu sefydlu i ganiatáu i bobl fyddar / anabl / niwrowahanol adrodd am heriau ac awgrymu gwelliannau.

# Cefnogi **Grŵp Aelodau Anabl** yn ein Plaid a Darparu'r Adnoddau ar ei Gyfer

2

## Diben a Gweledigaeth

- Grymuso aelodau Byddar / anabl / niwrowahanol trwy gefnogi'r broses o greu grŵp penodol o fewn y blaid.
- Sicrhau bod aelodau Byddar / anabl / niwrowahanol yn cyd-gynhyrchu penderfyniadau.
- Ymgorffori profiadau bywyd ac arbenigedd mewn strwythurau gwleidyddol i adeiladu cymdeithas sy'n fwy cynhwysol.




## Sefydlu a Chefnogi

- Cefnogi'r broses o ffurfio grŵp aelodau anabl a rhwydwaith cymorth cymheiriaid.
- Hwyluso cyfleoedd i gwrdd yng nghynadleddau'r blaid neu ddigwyddiadau annibynnol.

## Cyllid ac Adnoddau

- Rhoi cymorth ariannol ar gyfer:
  - Addasiadau rhesymol
  - Creu adnoddau ar gyfer y grŵp
  - Cymorth gyda chyfathrebu
- Sicrhau bod rhoddion a nawdd y blaid yn cael eu dosbarthu'n deg.



## Gwelededd a Hyrwyddo

- Hysbysebu'r grŵp yn fewnol ac yn allanol i:
  - Godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau Byddar / anabl / niwrowahanol y blaid
  - Arddangos arfer da i grwpiau eraill
- Hyrwyddo rhinweddau sefyll fel ymgeisydd Byddar / anabl / niwrowahanol.
- Darparu gwelededd a llwyfannau ar gyfer ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol.

## Mewnweledtiad a Chyd-gynhyrchu

- Cynnwys y grŵp o'r dechrau i gyd-gynhyrchu polisïau ac arferion y blaid.
- Sicrhau bod cynhwysiant yn flaenoriaeth o'r dechrau'n deg, ac nid yn ôl-ystyriaeth.
- Gofyn i'r grŵp oleuo atebion i rwystrau y mae pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol yn eu hwynebu.

## Cydweithredu ac Undod

- Annog cydweithredu a rhannu dysgu ar draws pleidiau.
- Cynnal digwyddiadau neu fentrau sy'n dod â phobl at ei gilydd i yrru newid.
- Gweithio tuag at dirwedd wleidyddol fwy unedig a chynhwysol.



# Hyfforddiant am Gydraddoldeb i Bobl Anabl: **Ymrwymiadau Allweddol**

3

## Egwyddorion Craidd

- **Hyfforddiant Mandadol:** Bydd angen Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar holl aelodau'r blaid a phob aelod o staff a swyddog etholedig.
- **Ymwybyddiaeth o Iaith Arwyddion Prydain:** Dod yn gyfarwydd ag arwyddion sylfaenol Iaith Arwyddion Prydain; mae rhwystrau cyfathrebu yn cau pobl allan gymaint â rhwystrau corfforol.
- **Profiadau Bywyd:** Rhaid i hyfforddiant gael ei gyd-ddylunio gyda phobl Fyddar / anabl / niwrowahanol a'i gyd-gyflwyno ganddynt.
- **Model Cymdeithasol o Anabledd[5]:** Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar sut y mae rhwystrau cymdeithasol, sefydliadol ac amgylcheddol yn anableddu unigolion, yn hytrach na phwysleisio amhariadau.
- **Arfer Gorau:** Bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i adnabod gwahaniaethu a'i herio, sut i ddefnyddio iaith gynhwysol, a sut i wneud addasiadau rhesymol.

[5] Y Model Cymdeithasol – Anabledd Cymru

## Gwahaniaethu rhwng Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd

- Yn aml, nid oes gan **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd** fewnbwn gan bobl Fyddar / anabl / niwrowahanol ac mae'n canolbwyntio ar amhariadau yn hytrach na rhwystrau cymdeithasol.
- **Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl:** mae'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng amhariad ac anabledd. Rhaid i unigolion Byddar / anabl / niwrowahanol ei gyflwyno er mwyn rhannu profiadau bywyd. Mae'n grymuso cyfranogwyr i herio gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cynhwysiant. Profiad cadarnhaol sy'n ymgysylltu.


## Gwella Hyfforddiant a'i Weithredu

**Hyfforddiant wedi'i Dargedu ar gyfer Rolau Allweddol:**

- **Rheolwyr Ymgyrchoedd:** Hyfforddiant am addasiadau rhesymol, lleoliadau hygyrch, ac ystyriaethau amserlennu.
- **Ysgrifenyddion Cymdeithasol:** Ymwybyddiaeth o amseru digwyddiadau i sicrhau cynhwysiant.
- **Ymgeiswyr Gwleidyddol:** Hyfforddiant meithrin hyder i arfogi ymgeiswyr i gynrychioli eu cymunedau.
- **Arweinwyr a Swyddogion y Blaid:** Hyfforddiant meincnod, gan ddefnyddio hyfforddiant Cabinet Anabledd Cymru fel enghraifft.

**Mwy o Gynrychiolaeth ac Ymgysylltu:**

- Hyrwyddo pobl Fyddar /anabl / niwrowahanol mewn mannau gwleidyddol.
- Annog pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol ifancach i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth



**Technoleg a Hygyrchedd:**

- Datblygu hyfforddiant am gynhwysiant digidol a defnyddio technoleg i gysylltu aelodau Byddar / anabl / niwrowahanol.

**Fformat Cyflwyno'r Hyfforddiant:**


- Cyfuniad o hyfforddwyr ag amhariadau gwahanol i gwmpasu persbectifau gwahanol.
- Gall deunydd ffilm ategol gefnogi hyfforddiant ac addysgu'n barhaus, ond ni ddylai gymryd lle cyflwyniad personol gan rywun Byddar / anabl / niwrowahanol.

## Ymrwymiadau Ehangach y Blaid

- Mae'r blaid yn ymrwymo i bolisi cydraddoldeb sy'n cefnogi cynhwysiant ar gyfer anabledd.

# Iaith a Hygyrchedd
# **Ymrwymiad**

4



## Model Cymdeithasol o Anabledd

- Dylai anabledd gael ei fframio fel mater cymdeithasol, nid cyflwr meddygol.
- Mae'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn rhai cymdeithasol ac amgylcheddol ac yn rhwystrau o ran agweddau, a rhaid mynd i'r afael â nhw trwy newidiadau cymdeithasol ac amgylcheddol a thrwy newid agweddau.
- Defnyddio "pobl anabl" yn hytrach na "pobl ag anableddau" gan bwysleisio bod yn rhaid i gymdeithas wneud addasiadau.

## Cyfathrebu a Deunyddiau Hygyrch


- Rhaid i'r holl ddeunyddiau gwleidyddol (taflenni, maniffestos, briffiau) fod ar gael ym mhob fformat hygyrch.
- Dylid cynnwys codau QR yn yr holl ddeunyddiau sy'n rhoi dolen i fideos ag enghreifftiau o brofiadau bywyd go iawn o hygyrchedd ar waith.

## Datblygu Hyfforddiant

- Datblygu modiwl hyfforddiant ar-lein am iaith a therminoleg gynhwysol.
- Gwneud yr hyfforddiant hwn yn fandadol i bawb.
- Defnyddio adnoddau fel – Pecyn Cymorth Model Cymdeithasol Anabledd Cymru[6] i gefnogi'r dysgu.
- Mae'r blaid yn cael ei haddysgu am bwysigrwydd addasiadau rhesymol.

## Cynhwysiant mewn Digwyddiadau ac Ymgysylltu Gwleidyddol

- Sicrhau bod hystings a chyfarfodydd gwleidyddol yn hygyrch gyda dehongliad Iaith Arwyddion Prydain, palandeipydd, a chymorth cyfathrebu.
- Rhaid i sesiynau briffio a thrafodaethau fod yn gwbl hygyrch i bob cyfranogwr.



[6] Pecyn-Cymorth-Y-Model-Cymdeithasol-o-Anabledd.docx

## Parch at Hunaniaeth a Dewisiadau Iaith

- Mae gan bobl yr hawl i gael eu cyfarch yn y ffordd sydd orau ganddyn nhw, gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn uniaethu fel rhywun anabl, er enghraifft rhywun sy'n niwrowahanol.
- Ymgysylltu â grwpiau cynrychiadol i sicrhau bod iaith gywir a pharchus yn cael ei defnyddio.

## Arweinyddiaeth a Gweithredu

- Rhaid i'r llywydd hyrwyddo'r defnydd o iaith briodol a mentrau cynhwysiant.




# Ffyrdd Amgen o **Gymryd Rhan**

5

## Egwyddorion Craidd

- Archwilio opsiynau pleidleisio digidol hybrid a mewnol er mwyn cynyddu cynhwysiant.
- Deall y gall presenoldeb corfforol fod yn anodd i bobl Fyddar / anabl / niwrowahanol, gofalwyr, rhieni, a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.
- Bydd gwybod na ddylai fod angen bod yn presennol yn gorfforol ar rywun er mwyn cymryd rhan yn llawn, yn osgoi allgau, gwahaniaethu neu ddifreinio.




## Gofynion Technoleg ar gyfer Cyfranogiad Hybrid

- Defnyddio technoleg (rhyngrwyd, offer sain) yn effeithiol gyda llwyfan hygyrch i ganiatáu presenoldeb hybrid a phleidleisio.
- Efallai y bydd gofyn newid rheolau cyfarfodydd i ganiatáu i bobl sy'n bresennol trwy ddull hybrid gymryd rhan a phleidleisio.
- Dylid modelu arferion gorau ar system bleidleisio hybrid y Senedd.

## Ystyriaethau Ariannol a Logistaidd

**Hyfforddiant Targedig ar gyfer Rôl Allweddol:**

- Nodi cyllid ar gyfer offer ac addasiadau rhesymol.
- Archwilio'r posibilrwydd o ariannu addasiadau rhesymol yn ganolog ar gyfer cyfarfodydd llai.
- Mynd i'r afael â'r mater lle mae rhai pleidiau yn gwahardd cyfarfodydd cymunedol hybrid.



## Ehangu Cynhwysiant

- Mae cyfarfodydd hybrid yn gallu gwella cyfranogiad i bobl Fyddar / anabl / niwrowahanol a phobl eraill sy'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag bod yno'n gorfforol.
- Gwthio i bob cyfarfod rhanbarthol a chymunedol fod yn rhai hybrid.

## Hygyrchedd ac Offer

- Sicrhau lleoliadau hygyrch a darparu technoleg er mwyn i bawb gymryd rhan.
- Sicrhau mecanweithiau pleidleisio hygyrch ar gyfer etholiadau a phenderfyniadau mewnol.

# Cyhoeddi **Data Amrywiaeth Ymgeiswyr** yn Wirfoddol

6

## Monitro Amrywiaeth Ymgeiswyr

- Ymrwymo i gyhoeddi data am nodweddion gwarchodedig ymgeiswyr gwleidyddol yn wirfoddol, yn unol â Chanllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru a'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol[7].
- Nid yw Adran 106 o'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi cael ei deddfu gan Lywodraeth y DU eto. Mae ei gweithredu'n wirfoddol ynghyd â'r canllawiau uchod yn gwella tryloywder, yn gwella cynrychiolaeth, ac yn cefnogi amrywiaeth mewn cyfranogiad gwleidyddol – yn enwedig ar gyfer ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol.
- Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[8], sy'n diogelu unigolion rhag gwahaniaethu mewn lleoliadau gwahanol, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol.
- Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu camau gweithredu cadarnhaol er mwyn gwella cynrychiolaeth a chael gwared ar rwystrau ar gyfer pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol.
- Casglu a chyhoeddi data dienw am nodweddion gwarchodedig pob un o ymgeiswyr y blaid.

---

[7] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-03/arolwg-ymgeiswyr-llywodraeth-leol-2022_0.pdf
[8] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/106

**Trwy gyhoeddi data am amrywiaeth ymgeiswyr yn wirfoddol, byddwn yn:**

- Hyrwyddo tryloywder ynghylch bylchau mewn cynrychiolaeth.
- Cryfhau ein hymrwymiad i gynhwysiant.
- Annog diwylliant lle mae ymgeiswyr yn teimlo'n gyfforddus yn datgelu eu statws anabledd.
- Gwella cyfleoedd i ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol gael eu dewis a'u cefnogi.

## Tryloywder Gwell

- Rhoi adroddiadau clir, hygyrch am amrywiaeth yn y blaid a meysydd lle mae ar y blaid angen gwella.
- Dangos atebolrwydd wrth fabwysiadu tirwedd wleidyddol gynhwysol.
- Bydd angen cynnwys ymgeiswyr annibynnol hefyd wrth gasglu data amrywiaeth, yn enwedig ar lefel Llywodraeth Leol lle gallai'r niferoedd fod yn uwch.

## Ystyriaethau Preifatrwydd a Moesegol

- Sicrhau bod pob datgeliad yn parhau i fod yn wirfoddol ac yn ddienw.
- Parchu hawl ymgeiswyr i breifatrwydd ond annog cyfranogiad ar yr un pryd.

## Newid Diwylliannol er mwyn Sicrhau Mwy o Gynhwysiant

- Lleihau rhwystrau biwrocrataidd sy'n atal pobl rhag datgelu.
- Mabwysiadu amgylchedd lle mae ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth ymgeisio am swydd wleidyddol.
- Cynyddu gwelededd unigolion Byddar / anabl / niwrowahanol mewn rolau arwain, er mwyn ysbrydoli ymgeiswyr y dyfodol a'u hannog.

## Casglu Data ac Adrodd

- Byddwn yn gwahodd ymgeiswyr i ddatgelu eu nodweddion gwarchodedig yn wirfoddol.
- Bydd data yn ddienw ac yn cael eu casglu mewn ffordd sy'n sicrhau ein bod yn cynnal preifatrwydd.
- • Bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar ôl yr etholiadau, gan fanylu ar dueddiadau mewn cynrychiolaeth a bylchau mewn amrywiaeth.



## Cymorth Deddfwriaethol a Sefydliadol

- Cydweithio â chomisiynau etholiadol a llywyddion i archwilio datgeliad mandadol trwy gorff annibynnol.
- Eirioli dros ddeddfiad llawn Adran 106 i wneud adrodd yn ofyniad cyfreithiol.
- Defnyddio Canllawiau Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol Cofrestredig fel adnodd i helpu i gynyddu amrywiaeth ymysg pobl sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd[9].

## Mesurau Gweithredu Cadarnhaol

- Defnyddio darpariaethau o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb i gyflwyno polisïau sy'n cefnogi ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol.

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

- Lansio ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cynrychiolaeth wleidyddol amrywiol.
- Ymgysylltu â chymunedau Byddar / anabl / niwrowahanol gan fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad ac annog pobl i sefyll fel ymgeiswyr.
- Tynnu sylw at fodelau rôl a straeon llwyddiant er mwyn annog hyder mewn darpar-ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol.

---

[9] https://www.llyw.cymru/canllawiau-ar-amrywiaeth-chynhwysiant-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-cofrestredig

# Rhannu Swyddi ar gyfer **Rolau Etholedig**

7

## Gwella Hygyrchedd a Chynrychiolaeth

- Cyflwyno cyfle i wneud swyddi cyhoeddus yn fwy hygyrch i unigolion sy'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â gwleidyddiaeth yn llawn-amser.
- Cynnwys pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol, y rheiny sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a gofalwyr, a allai gael gofynion rolau gwleidyddol traddodiadol yn anodd oherwydd blinder difrifol, sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld, neu gyfyngiadau eraill.
- Mabwysiadu mwy o gynhwysiant a sicrhau bod ystod ehangach o leisiau yn cael eu cynrychioli mewn mannau lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.

## Cynseiliau

- Er enghraifft: mae Staff y Senedd ac undebau llafur eisoes wedi gweithredu trefniadau rhannu swyddi yn llwyddiannus.
- Mae'n dangos y gall rhannu rolau arwain fod yn effeithiol yn ymarferol, os oes eglurder ynghylch cyfrifoldeb a phrosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae deddfau cydraddoldeb sy'n bodoli yn cefnogi'r gofyniad am addasiadau rhesymol mewn swyddi cyhoeddus fel eu bod yn fwy hygyrch.
- Heb ddarpariaethau deddfwriaethol penodol, mae yna ansicrwydd o hyd ynghylch cyfreithlondeb rhannu swyddi etholedig a'u gweithrediad ymarferol.

## Heriau ac Ystyriaethau

- **Pryderon Ymarferol:** Gallai rhannu cyfrifoldebau, cynnal cysondeb mewn penderfyniadau polisi, a sicrhau ymgysylltiad cydlynol ag etholwyr gyflwyno rhwystrau gweithredol.
- **Amserlen ar gyfer Gweithredu:** Byddai'r broses o gyflwyno rhannu swyddi yn gofyn am weithredu'n raddol, ymgynghoriadau, a diwygiadau cyfreithiol.
- **Diwygiadau Cyfreithiol:** Mae angen addasu fframweithiau deddfwriaethol er mwyn caniatáu i swyddi etholedig gael eu rhannu, ac er mwyn rheoleiddio hyn, yn glir, gan sicrhau eglurder am atebolrwydd, hawliau pleidleisio, a strwythurau llywodraethu.



# Cynyddu Cynrychiolaeth **Ymgeiswyr Anabl**

8

## Mannau Diogel i Rannu

- Sefydlu mannau diogel, cyfrinachol lle gall ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol ddewis rhannu gwybodaeth am eu amhariad neu gyflwr iechyd heb ofni rhagfarn.
- Parchu hawl ymgeiswyr i breifatrwydd, a chydnabod ar yr un pryd y gall mwy o welededd annog eraill a'u grymuso.
- Hyrwyddo sgyrsiau agored am fanteision rhannu eu profiadau yn gyhoeddus, gan arddangos profiadau bywyd amrywiol.

## Cynyddu cynrychiolaeth yn gyffredinol

- Er nad oes yn rhaid i ymgeiswyr rannu eu hamhariad neu eu cyflwr iechyd yn gyhoeddus, dylai pleidiau gadw cofnod o gynrychiolaeth i sicrhau amrywiaeth a phrofiad uniongyrchol o rwystrau sy'n anablu.

## Cwotâu a Rhestrau Cynrychiolwyr

- Cyflwyno system gwota sy'n sicrhau bod o leiaf un unigolyn Byddar / anabl / niwrowahanol yn cael ei gynnwys ar bob rhestr ymgeiswyr.
- Er nad yw'n ofynnol i ymgeiswyr rannu eu hamhariad neu gyflwr iechyd yn gyhoeddus, dylai pleidiau dracio cynrychiolaeth i sicrhau bod nodau amrywiaeth yn cael eu bodloni.
- Targedu niferoedd cynrychiadol o ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol sy'n adlewyrchu'r boblogaeth ehangach.

## Chwalu Rhwystrau

- Herio canfyddiadau hen fod pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol "ddim yn gallu gwneud hyn" trwy hyrwyddo straeon gwleidyddion Byddar / anabl / niwrowahanol llwyddiannus.
- Rhoi hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i aelodau'r blaid i chwalu rhagfarn anymwybodol.
- Creu polisïau sy'n hyrwyddo dulliau ymgyrchu hyblyg, hygyrch, gan gynnwys canfasio digidol.



## Mentora a Chefnogi'r Tîm

- Gweithredu rhaglenni mentora, lle gall mentoriaid ac ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol ddysgu oddi wrth ei gilydd. Yn ddelfrydol, bydd gan y mentor ei brofiadau bywyd ei hun.
- Mae cynnig cyfleoedd i ddysgu "yn y swydd" trwy fentora yn helpu ymgeiswyr i feithrin sgiliau a hyder.
- Rhoi cymorth a gefnogir gan y blaid i lywio cymhlethdodau cydbwysedd bywyd a gwaith, gan ystyried cyflwr iechyd yr ymgeisydd, ei niwrowahaniaeth a / neu ei amhariad.
- Sicrhau bod addasiadau ymarferol ar waith gan gynnwys cymorth carlam Mynediad at Waith i gael gwared ar rwystrau logistaidd.
- Adeiladu timau cymorth o amgylch ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol sydd ag arbenigedd am / drwy brofiadau bywyd.
- Tanio uchelgais a dangos y gall pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol ffynnu mewn swyddi cyhoeddus.

## Gwelededd ac Effaith Hirdymor

- Hyrwyddo croestoriadedd ymgeiswyr Byddar / anabl / niwrowahanol sydd ag amhariadau gweladwy ac anweladwy, i galonogi cenedlaethau'r dyfodol.
- Annog pobl ifanc Fyddar / anabl / niwrowahanol i ymgysylltu â gwleidyddiaeth trwy arddangos modelau rôl y maen nhw'n gallu uniaethu â nhw.
- Adeiladu rhwydwaith o ymgeiswyr trwy fentora parhaus, gan greu cylch lle mae arweinwyr heddiw yn cefnogi ymgeiswyr yfory.

Mabwysiadu’r
# Model Cymdeithasol o Anabledd

9



- Mae’r Model Cymdeithasol o Anabledd yn sylfaenol; mae’n ail-fframio anabledd fel canlyniad rhwystrau cymdeithasol, ac nid namau unigol.
- Mae popeth yn dibynnu ar sefydlu’r Model hwn mewn polisi ac arfer.
- Gall pleidiau gydnabod mai’r broblem yw amgylcheddau anhygyrch, agweddau sy’n gwahaniaethu, ac allgáu systemig, nid y bobl Fyddar / anabl / niwrowahanol eu hunain.

## Egwyddorion allweddol

- **Defnyddio iaith a therminoleg addas:** parchu hunaniaeth ac unigolrwydd pobl Fyddar / anabl / niwrowahanol. Rhaid anrhydeddu'r ffordd y mae pobl yn diffinio eu hunain ar bob adeg.
- **Gwneud Addasiadau Rhesymol:** sicrhau bod addasiadau yn cael eu gwneud yn rhagweithiol, heb yr angen i rywun ddatgelu anabledd.
- **Cydnabod anabledd trwy lens y Model Cymdeithasol:** nid dim ond fel y mae'n cael ei ddiffinio o dan Deddf Cydraddoldeb. Ddylai'r Model Cymdeithasol o Anabledd ddim cael ei leihau neu drechu gan ddiffiniadau cyfreithiol sy'n methu â dal y profiad bywyd.
- **Defnyddio Egwyddorion Dylunio Cyffredinol:** creu amgylcheddau a systemau sy'n gweithio i bawb a dylunio trwy feddwl am hygyrchedd cynhwysol.
- **Hyfforddiant mandadol i bob plaid wleidyddol:** am y Model Cymdeithasol o Anabledd, i sicrhau dealltwriaeth go iawn a sicrhau bod y Model yn cael ei gymhwyso â chysondeb.
- **Hyrwyddo straeon llwyddiant ac arfer gorau a dysgu ohonynt:** gan gynnwys Pecyn Cymorth Model Cymdeithasol Anabledd Cymru[10].
- **Buddsoddi mewn mentrau fel prentisiaethau** i roi profiad yn y byd go iawn a chefnogi dysgu ar y cyd, a thrwy hynny gryfhau gweithrediad ymarferol y Model Cymdeithasol.

Mae mabwysiadu'r Model Cymdeithasol yn golygu alinio polisïau, ond mae hefyd yn golygu creu cymdeithas gynhwysol, barchus, lle gall bob un ffynnu nid dim ond goroesi.



[10] https://www.disabilitywales.org/social-model/?lang=cy

Disability Wales
Anabledd Cymru

**Disability Wales**
Sbarc / Spark
Maindy Road
Cardiff
CF24 4HQ

F: 029 2088 7325
F: 029 2088 8702
E: info@disabilitywales.org
**www.disabilitywales.org**